Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date:
05 Mawrth 2021
05 March 2021

Annwyl Riant/Gofalwr

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru y bydd mwy o ddisgyblion yn cael cyfle i ddychwelyd i ysgolion cyn y Pasg. Bydd y cynlluniau'n amodol ar adolygiad tair wythnos rheolaidd Llywodraeth Cymru o reoliadau coronafeirws ddydd Gwener 12 Mawrth.

Mae disgyblion cynradd 3-7 oed wedi gallu dychwelyd i'w hystafelloedd dosbarth ers dydd Llun, Chwefror 22; cyflawnwyd hyn mewn ffordd fesul cam a hyblyg sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

O 15 Mawrth, fe fydd cynllun fesul cam ar gyfer dychwelyd holl ddisgyblion i'r ysgolion cynradd gyda phob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol erbyn Mawrth 17eg. Bydd eich ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol i roi gwybod i chi am ei threfniadau unigol neu Ychwanegwch eich manylion lleol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mewn ysgolion uwchradd, dywed Llywodraeth Cymru y dylid blaenoriaethu dysgwyr ym mlynyddoedd 11 a 13 o'r 15 Mawrth. Fodd bynnag, bydd hyblygrwydd i ysgolion ddod â dysgwyr ym mlynyddoedd 10 a 12 i mewn yn ogystal.

Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, hefyd wedi cadarnhau y bydd ysgolion yn cael cyfle i groesawu dysgwyr ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 yn ôl cyn gwyliau'r Pasg. Er na fyddai hyn yn golygu y byddai blynyddoedd 7, 8 a 9 yn dychwelyd i'r ysgol yn llawn, y nod yw rhoi cyfle i ddysgwyr gwrdd ag athrawon, gan ganolbwyntio ar gefnogi llesiant, a pharodrwydd i ddychwelyd i'r ysgol yn llawn ar ôl gwyliau'r Pasg.

Mae pob ysgol uwchradd yn gwneud ei chynlluniau ei hun yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac rydym yn cefnogi'r cynlluniau hynny gyda ffocws ar gadw pob disgybl yn ddiogel ac hefyd rhoi cyfle i ddisgyblion ymgysylltu a'u haddysg o 15 Mawrth ymlaen.

Bydd eich ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol i roi gwybod i chi am ei threfniadau unigol neu Ar gyfer ein hysgol... (Ychwanegwch fanylion penodol eich ysgol uwchradd yma neu dilëwch.)

Bydd disgyblion yn parhau i ddysgu o bell pan yn gweithio gartref tan ar ôl gwyliau'r Pasg. Fodd bynnag, sylwer y bydd dysgu o bell yn cael ei atal ar y diwrnodau pan fydd disgyblion yn mynychu'r ysgol.

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Bydd ysgolion yn parhau i gynnig darpariaeth ar y safle ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol, yn ogystal a chynnig cymorth lles ar-lein.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl mai diogelwch disgyblion a staff yw ein prif flaenoriaeth, a byddwn yn adolygu'r mesurau iechyd a diogelwch sydd gennym ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau y bydd profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos yn cael eu hymestyn i ddysgwyr hŷn o Flwyddyn 10 ymlaen, yn ogystal â staff addysg.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn, yn ogystal â diweddariadau pellach ar ddychwelyd i'r ysgol gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer prydau ysgol a chludiant, cyn gynted ag y gallwn.

Yn y cyfamser, daliwch ati i wneud y gwaith rhagorol rydych yn ei wneud gartref, rydym yn gwybod nad yw'n hawdd, ond hoffem ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth a chydweithrediad.

Cofiwch fod y lefel uchaf o gyfyngiadau yn parhau i fod ar waith yng Nghymru a bod yn rhaid i ni 'aros gartref'. Mae'n hynod bwysig ein bod ni i gyd yn dal ati i ddilyn y canllawiau ynghylch golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb. Ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw hyn i leihau'r trosglwyddo o fewn ein cymunedau.

Os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael eich profi ar unwaith. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n bositif.

I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg a dilynwch @CarmsCouncil ar Facebook a Twitter.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus, gyda'n gilydd gallwn gadw ein hysgolion a'n cymunedau'n ddiogel.

Yr eiddoch yn gywir

Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English